The
Electoral
Commission

Cais Mynegiant o Ddiddordeb (EOI) ar gyfer y Comisiwn Etholiadol

# Cyfeirnod Contract: WP132

# Prosiectau Ymgysylltu Democrataidd: ymgysylltu â grwpiau sydd wedi tan-gofrestru mewn democratiaeth

**Gweithdrefn**: Gweithdrefn Agored (Deddf Caffael 2023)

**Dyddiadau'r Contract** (yn fras):

Lotiau 1-3:

- Blwyddyn 1: Chwefror 2026 – Awst 2026
- Blwyddyn 2: Medi 2026 – Awst 2027
- Estyniad posibl tan fis Mawrth 2030, yn amodol ar gymeradwyaeth cyllideb flynyddol

Lot 4:

- Blwyddyn 1: Chwefror 2026 – Awst 2026

**Cyllideb** (yn cynnwys TAW):

- Lot 1 (prosiectau ymchwil gweithredol yn Lloegr): Dyfernir hyd at **£65,000** fesul prosiect ym mlwyddyn 1 o'r contract. Bydd y gyllideb ar gyfer blwyddyn 2 yn cael ei chadarnhau ym mis Ebrill 2026
- Lot 2 (Prosiectau pleidleisio hygyrch): Dyfernir hyd at **£60,000** fesul prosiect ym mlwyddyn 1 o'r contract. Bydd y gyllideb ar gyfer blwyddyn 2 yn cael ei chadarnhau ym mis Ebrill 2026
- Lot 3 (Prosiectau ymgysylltu digidol): Dyfernir hyd at **£100,000** fesul prosiect ym mlwyddyn 1 o'r contract. Bydd y gyllideb ar gyfer blwyddyn 2 yn cael ei chadarnhau ym mis Ebrill 2026
- Lot 4 (prosiectau ymchwil gweithredol yn Lloegr): Dyfernir hyd at **£10,000** fesul prosiect ym mlwyddyn 1 o'r contract.

## Cwmpas Mynegiant o Ddiddordeb (EOI)

Mae'r Comisiwn Etholiadol angen gwybodaeth am eich gallu a chapasiti i ddarparu'r gwasanaethau a fanylir isod.

Rhowch wybod os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwneud cynigion ar gyfer y cyfle hwn. Mae cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn i'w cael o dan 'Camau nesaf' isod.

**Noder: Nid oes angen ymateb tendr ffurfiol ar hyn o bryd, naill ai fel cynnig prosiect neu fel cyflwyniad pris.**

## Amserlen Caffael Bwriadedig

Noder mai amserlen dros dro yw hon ac rydym yn cadw'r hawl i'w newid:

- Cyhoeddi'r EOI: 19 Tachwedd 2025
- Dyddiad dychwelyd yr EOI: 11 Rhagfyr 2025
- Gwahoddiad i Dendro wedi'i gyflwyno: 15 Rhagfyr 2025
- Dyddiad cau cais am eglurhad: 12 Ionawr 2026
- **Dyddiad cau cyflwyno'r tendr: 16 Ionawr 2026**
- Dyfarnu'r contractau a hysbysu'r holl gynigwyr: 9 Chwefror 2026

## Y Comisiwn Etholiadol a'i waith addysg i bleidleiswyr

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff cyhoeddus annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder cyhoeddus yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

Rydym hefyd yn defnyddio ein harbenigedd i wneud newidiadau i'n democratiaeth ac eirioli drostynt, gyda'r nod o wella tegwch, tryloywder, ac effeithlonrwydd.

Nod ein gwaith addysg i bleidleiswyr yw hyrwyddo gwell cysondeb mewn addysg llythrennedd gwleidyddol, cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddemocratiaeth, a chynyddu hyder y pleidleisiwr i ymgysylltu â'n system ddemocrataidd.

Hyd yma, rydym wedi gweithio â phartneriaid i ddatblygu a chyflwyno ystod o weithgareddau ac adnoddau a luniwyd i addysgu pleidleiswyr, yn benodol grwpiau sydd wedi tan-gofrestru ac eraill sy'n wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan, ynglŷn â sut i gofrestru ar gyfer pleidleisio, ffyrdd o bleidleisio a newidiadau i etholiadau (fel cyflwyno'r angen am ID pleidleiswyr).

## Pwy all wneud cais?

- Byddwn yn comisiynu sefydliadau i ddatblygu a gwerthuso prosiectau a fydd yn cynyddu cyfranogiad democrataidd.
- Derbynnir ceisiadau ar y cyd gan sawl sefydliad a/neu sefydliadau aelodaeth neu gyrff ymbarél ar yr amod bod yna brif ymgeisydd.

- Bwriedir yr alwad hon ar gyfer sefydliadau sydd â hanes diamheuol o ddarparu gweithgareddau ymgysylltu democrataidd neu gymunedol. Er ein bod ni'n croesawu amrywiaeth o ran arbenigedd, ni chaiff ceisiadau gan sefydliadau y mae eu prif ffocws ar ymchwil academaidd, ymgynghori neu ddadansoddi'r farchnad eu hannog oni bai eu bod yn rhan o gynnig ar y cyd dan arweiniad sefydliad gyda'r profiad angenrheidiol.
- Mae didueddrwydd yn ganolog i rôl y Comisiwn Etholiadol. Mae gofyn i sefydliadau fodloni ein gofynion didueddrwydd cyn y gellir dyfarnu contract. Cynhelir diwydrwydd dyladwy pellach ar y sefydliad, yr ymddiriedolwyr a'r uwch dîm arwain cyn dyfarnu unrhyw gontract.
- Rhaid buddsoddi'r holl gyllid a ddarperir yn y prosiect.

Byddwn yn comisiynu sefydliadau sy'n gallu defnyddio 'u gwybodaeth a'u harbenigedd o ymgysylltu â grwpiau sydd wedi tan-gofrestru. Rydym yn bwriadu gweithio â sefydliadau sy'n gweithredu dulliau cyfranogol, fel cyd-greu a chyd-lunio. Bydd sefydliadau llwyddiannus yn sicrhau bod eu prosiectau wedi'u datblygu gyda chyfranogiad ystyrlon gan y cymunedau fydd yn elwa arnynt.

## Diben

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn cefnogi prosiectau sy'n cynyddu gallu cyfranogwyr i, a'r tebygolrwydd o, gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Dylai prosiectau ystyried amrywiaeth o bynciau'n seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'w cynulleidfaoedd, megis:

- Cofrestru i bleidleisio
- Yr angen am ID pleidleiswyr
- Ffyrdd o bleidleisio
- Sut i nodi twyll-wybodaeth a cham-wybodaeth
- Beth i'w ddisgwyl yn yr orsaf bleidleisio
- Newidiadau ar y gweill i etholiadau

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a gomisiynwyd er mwyn pennu nodweddion llwyddiant a sut rydym yn mesur effaith.

## Cwmpas

Byddwn yn comisiynu prosiectau sydd â'r nod o gynyddu cyfranogiad democrataidd ymhlith grwpiau sy'n llai tebygol o fod wedi cofrestru i bleidleisio a'r rheiny sy'n wynebu rhwystrau eraill. Mae rhagor o wybodaeth am y grwpiau hyn i'w chael yn Atodiad I.

Rydym yn croesawu ystod eang o fentrau. Byddwn yn annog arloesedd a chreadigrwydd gan bartneriaid, wrth ymgorffori arfer gorau mewn addysg ac ymgysylltiad cymunedol ar yr un pryd. Gallai mentrau gynnwys ymyriadau addysg traddodiadol, gweithgareddau i uwchsgilio gweithwyr proffesiynol a lleisiau cymunedol dibynadwy, mentrau i adeiladu capasiti ar gyfer cyflawni ymgysylltiadau democrataidd, digwyddiadau, datrysiadau'n seiliedig ar dechnoleg, a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.

Dylai prosiectau anelu at gyflawni'r canlyniadau ar gyfer y Lot perthnasol, a nodir isod. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a gomisiynwyd er mwyn pennu nodweddion llwyddiant a sut rydym yn mesur effaith.

### Lot 1 - Prosiectau Ymgysylltu Democrataidd (Lloegr)

| |
|---|
| Prosiectau ar raddfa fach a chanolig sydd wedi dylanwadu'n amlwg ar Loegr yn unig |

Rydym yn rhagweld dyfarnu hyd at **£65,000** (yn cynnwys TAW) fesul prosiect i sefydliadau yn Lloegr sy'n awyddus i dreialu dulliau newydd ac arloesol o ymgysylltiad democrataidd.

Dylai prosiectau a gomisiynwyd o dan y Lot hon anelu at gyflawni un neu ragor o'r canlyniadau canlynol:

1. Cynnydd mewn dealltwriaeth a gwybodaeth o ran democratiaeth, pleidleisio ac etholiadau
2. Cynnydd mewn hyder i ymgysylltu â democratiaeth
3. Cynnydd yn y tebygolrwydd o gofrestru i bleidleisio ac ymgysylltu â democratiaeth

Bydd y prosiectau hyn o gymorth pellach i ni ddeall y rhwystrau sylweddol a wynebir gan grwpiau sydd wedi tan-gofrestru wrth ymgysylltu â'n proses ddemocrataidd, a pha ffurfiau ar ymyrraeth all gael gwared ar y rhwystrau hynny.

### Lot 2 – Prosiectau Pleidleisio Hygyrch

| |
|---|
| Prosiectau ar raddfa ganolig a mawr i ddarparu gwybodaeth hygyrch i bleidleiswyr anabl a niwrowahanol |

Rydym yn rhagweld dyfarnu hyd at **£60,000** fesul prosiect i sefydliadau sy'n gallu cefnogi pleidleiswyr anabl a niwrowahanol ledled y DU drwy:

- Gweithio gyda'n gilydd i gydlynu'r gwaith o gyd-greu, cyflwyno a gwerthuso gweithgareddau ac adnoddau addysg hygyrch ac o ansawdd dda i bleidleiswyr. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bartneriaid sy'n gallu cynhyrchu gwybodaeth i bleidleiswyr mewn fformatau hygyrch, yn cynnwys Braille, Iaith Arwyddion Prydain (BSL), sain, print bras a Hawdd ei Ddarllen.
- Rhannu gwybodaeth ac adnoddau i bleidleiswyr anabl drwy rwydweithiau newydd a phresennol

Rhyngddynt, bydd y prosiectau hyn yn cefnogi pleidleiswyr yn benodol sydd:

- yn F/fyddar neu'n drwm eu clyw
- yn ddall neu â golwg rhannol
- ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth

Byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau ar gyfer prosiectau i gefnogi pobl Anabl eraill, yn cynnwys rhai ag anableddau cymhleth neu niferus, a phobl â salwch meddwl.

Dylai prosiectau a gomisiynwyd o dan y Lot hon anelu at gyflawni un neu ragor o'r canlyniadau canlynol:

1. Cynnydd o ran mynediad at wybodaeth hygyrch i bleidleiswyr
2. Cynnydd mewn dealltwriaeth a gwybodaeth o ran democratiaeth, pleidleisio ac etholiadau.
3. Cynnydd mewn hyder i ymgysylltu â democratiaeth
4. Cynnydd yn y tebygolrwydd o gymryd rhan mewn etholiadau

**Lot 3 – Prosiectau Ymgysylltu Digidol**

| |
|---|
| Prosiectau ymgysylltu digidol ar raddfa fawr sy'n llywio, addysgu ac ysbrydoli pleidleiswyr o bob oed, yn arbennig y rhai sy'n llai tebygol o ymgysylltu â sianeli traddodiadol. |

Rydym yn rhagweld dyfarnu hyd at **£100,000** fesul prosiect i sefydliadau gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu digidol.

Rydym yn chwilio am brosiectau sy'n:

- cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ar draws y DU ac yn llenwi bylchau mewn gwybodaeth allweddol ynghylch pleidleisio a democratiaeth
- defnyddio technolegau newydd a dulliau blaengar o ymgysylltu â phobl yn y broses ddemocrataidd
- arloesol, cynhwysol a dylanwadol o ran helpu pobl i ddeall democratiaeth, etholiadau a phleidleisio

Rydym yn awyddus i gydweithio â sefydliadau sy'n gallu cyfuno eu cyrhaeddiad, eu creadigrwydd a'u llais dibynadwy gyda'n harbenigedd di-duedd mewn democratiaeth, pleidleisio ac etholiadau. Bydd prosiectau'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd ac amrywiol ac yn archwilio'r rhan y gall ymgysylltiad digidol ei chwarae mewn cynyddu cyfranogiad.

Dylai prosiectau a gomisiynwyd o dan y Lot hon anelu at gyflawni un neu ragor o'r canlyniadau canlynol:

1. Cynnydd yng nghyrhaeddiad sianeli cyfryngau cymdeithasol y Comisiwn a nifer yr ymwelwyr i'w wefan

2. Cynnydd mewn mynediad at wybodaeth gywir, ddi-duedd a pherthnasol i bleidleiswyr

3. Cynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r etholiadau sydd ar y gweill a'r newidiadau sydd i ddod i'n system etholiadol

**Lot 4 - Prosiectau Ymgysylltu Democrataidd (Alban)**

| |
|---|
| Prosiectau bach i ganolig eu maint gydag effaith amlwg yn yr Alban yn unig |

Rydym yn rhagweld dyfarnu hyd at **£12,500** (yn cynnwys TAW) fesul prosiect i sefydliadau yn Alban sy'n awyddus i dreialu dulliau newydd ac arloesol o ymgysylltiad democrataidd.

Dylai prosiectau a gomisiynwyd o dan y Lot hon anelu at gyflawni un neu ragor o'r canlyniadau canlynol:

1. Cynnydd mewn dealltwriaeth a gwybodaeth o ran democratiaeth, pleidleisio ac etholiadau
2. Cynnydd mewn hyder i ymgysylltu â democratiaeth
3. Cynnydd yn y tebygolrwydd o gofrestru i bleidleisio ac ymgysylltu â democratiaeth

Bydd y prosiectau hyn o gymorth pellach i ni ddeall y rhwystrau sylweddol a wynebir gan grwpiau sydd wedi tan-gofrestru wrth ymgysylltu â'n proses ddemocrataidd, a pha ffurfiau ar ymyrraeth all gael gwared ar y rhwystrau hynny.

## Meini prawf gwerthuso mynegol

- **Pob Lot** - bydd unrhyw dendrau canlyniadol yn cael eu gwerthuso drwy ddefnyddio'r meini prawf canlynol:
  - **Y gallu i gyflawni canlyniadau (50%)**
  - **Effaith a gwerthuso (20%)**
  - **Amserlenni a chyllideb (20%)**
  - **Arferion diogelu (10%)**

Noder y gall y meini prawf gwerthuso newid yn ystod datblygu'r Gwahoddiad i Dendro.

## Hawl i ganslo neu amrywio'r mynegiant o ddiddordeb

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cadw'r hawl i:

- Ganslo'r EOI hwn yn llwyr neu yn rhannol ar unrhyw gam ac ar unrhyw adeg; a
- Diwygio, egluro, ychwanegu at neu dynnu'n ôl bob rhan neu unrhyw ran o'r EOI ar unrhyw adeg.

## Camau nesaf

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am y tendr hwn, cofrestrwch eich diddordeb os gwelwch yn dda.

**1. Cofrestru ar y porth**

Bydd y gwahoddiad i dendro disgwyliedig yn cael ei gyhoeddi ar Borth Caffael y Comisiwn Etholiadol; cofrestrwch fel cyflenwr drwy ddilyn y ddolen hon https://in-tendhost.co.uk/electoralcommission/aspx/Registration

Os ydych angen cymorth gyda chofrestru, cysylltwch â Desg Gymorth Dechnegol In-Tend ar 0114 407 0065.

**2. Cysylltu â'r tîm caffael, cofrestru diddordeb**

Ar ôl cofrestru ar y porth, cysylltwch â ni gan nodi pa lot/lotiau yr ydych yn bwriadu gwneud cais amdanynt. Nid oes angen ymateb yn ffurfiol i'r tendr gyda chais ar y cam hwn.

I fynegi diddordeb:

1. Cofrestrwch ar Borth Caffael In-Tend y Comisiwn Etholiadol

2. E-bostiwch procurement@electoralcommission.org.uk gyda chadarnhad o ddiddordeb. Dylech gynnwys ‘WP132 Prosiectau Ymgysylltu Democrataidd 2025-30’ yn y llinell destun.

## Manylion cyswllt

Enw: Y Comisiwn Etholiadol - Tîm Caffael

Cyfeiriad e-bost: procurement@electoralcommission.org.uk

# Atodiad I: Grwpiau sydd wedi tan-gofrestru a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau eraill rhag cymryd rhan

## Grwpiau sydd wedi tan-gofrestru

Dangosodd ein gwaith ymchwil (2022) bod sawl ffactor yn effeithio ar p'un a yw rhywun wedi cofrestru i bleidleisio, o oed i ba mor hir maen nhw wedi byw yn eu cyfeiriad presennol. Dengys ein gwaith ymchwil bod y nodweddion canlynol yn dylanwadu ar debygolrwydd unigolyn o fod wedi cofrestru.

Lle mae'r ffigurau isod yn cyfeirio at bleidleiswyr yn Lloegr, maent yn cyfeirio at y canran o bobl yn Lloegr oedd ar y gofrestr ar gyfer etholiadau senedd y DU.

Lle mae'r ffigurau'n cyfeirio at bleidleiswyr yn yr Alban, maent yn cyfeirio at y canran o bobl oedd ar y gofrestr ar gyfer etholiadau lleol yn yr Alban.

Lle mae'r ffigurau'n cyfeirio at bleidleiswyr yng Nghymru, maent yn cyfeirio at y canran o bobl oedd ar y gofrestr ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru.

### Oed

- 16% yn unig o bobl ifanc 16-17 oed ym Mhrydain Fawr oedd wedi cofrestru
- 70% o bobl 18-34 oed yn Lloegr oedd wedi cofrestru
- 76% o bobl 18-34 oed yn yr Alban oedd wedi cofrestru
- 79% o bobl 18-34 oed yng Nghymru oedd wedi cofrestru

### Cenedligrwydd

- 70% o ddinasyddion yr UE ym Mhrydain Fawr oedd wedi cofrestru
- 68% o Ddinasyddion y Gymanwlad oedd wedi cofrestru
- 58% o ddinasyddion yr UE a'r Gymanwlad yn yr Alban oedd wedi cofrestru
- 70% o ddinasyddion yr UE a'r Gymanwlad yng Nghymru oedd wedi cofrestru

### Ethnigrwydd

- Mae cyfraddau cofrestru ym Mhrydain Fawr ar eu huchaf ymhlith y rhai o gefndir ethnig gwyn
- Ers 2019, mae cyfraddau cofrestru wedi cynyddu ar gyfer pob grŵp ac eithrio'r rhai o gefndiroedd ethnig Du lle gwelwyd gostyngiad o 75% i 72%

Tabl 1: Cyfraddau cofrestru ledled Prydain Fawr

| Blwyddyn | 2018 | 2022 |
|---|---|---|
| Gwyn | 84% | 87% |

| | | |
|---|---|---|
| **Asiaidd** | 76% | 80% |
| **Du** | 75% | 72% |
| **Cymysg** | 69% | 72% |
| **Eraill** | 62% | 71% |

### Anabledd, yn benodol anableddau nad ydynt yn rhai corfforol

- 84% o bobl ag anabledd dysgu neu feddyliol ym Mhrydain Fawr oedd heb gofrestru

### Statws economaidd-gymdeithasol

- 81% o bobl o'r grŵp economaidd-gymdeithasol incwm isaf (DE) yn Lloegr oedd wedi cofrestru, o'i gymharu ag 89% o'r uchaf (AB).
- 78% o bobl o'r grŵp economaidd-gymdeithasol incwm isaf (DE) yn Lloegr oedd wedi cofrestru, o gymharu ag 86% o'r uchaf (AB).
- 85% o bobl o'r grŵp economaidd-gymdeithasol incwm isaf (DE) yng Nghymru oedd wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau lleol, o gymharu ag 87% o'r uchaf (AB).

### Tai, yn benodol os ydynt yn rhentu'n breifat

- Mae'r rhai sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar yn llai tebygol o fod wedi cofrestru
- 39% yn unig o bobl ym Mhrydain Fawr sydd wedi byw yn eu cyfeiriad presennol am lai na blwyddyn sydd wedi cofrestru
- Mae 66% o bobl yn Lloegr sy'n rhentu eu cartrefi'n breifat wedi cofrestru o gymharu â 45% yn yr Alban a 73% yng Nghymru. Mewn cyferbyniad, mae 95% o bobl ym Mhrydain Fawr sydd berchen eu cartref yn llwyr wedi cofrestru.

### Pobl â heriau iechyd meddwl

- Fel grwpiau eraill megis pobl anabl sy'n agored i allgáu cymdeithasol a gwleidyddol, rydym yn bryderus y gall pobl â salwch meddwl fod wedi'u tan-gofrestru hefyd. Mae ymchwil (UKRI, 2024) yn awgrymu bod dros 500,000 o bobl yn byw gyda salwch meddwl difrifol (SMI) yn Lloegr, gyda thros 1.85 miliwn o bobl mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl, anableddau dysgu ac awtistiaeth ar ddiwedd mis Tachwedd 2023. Yn ôl ymchwil (Canolfan ar gyfer Iechyd Meddwl, 2024) roedd "anawsterau neu ddryswch ynghylch cofrestru i bleidleisio" yn rhwystr i bobl ag anawsterau iechyd meddwl mewn gwirionedd.

### Rhwystrau eraill rhag cymryd rhan

Gwyddom fod rhai grwpiau yn fwy tebygol o brofi rhwystrau a grëir gan yr angen am ID pleidleiswyr a gallant fod angen cymorth i gael gafael ar ID ffotograffig sydd ei angen i bleidleisio wyneb yn wyneb mewn rhai etholiadau yn y DU. Mae hyn yn cynnwys:

- Pobl hŷn, yn enwedig y rhai dros 85
- Pobl anneuaidd a thraws
- Pobl anabl
- Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Pobl ddigartref a'r rhai mewn llochesi

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn cefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau economaidd-gymdeithasol isel. Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn ystod etholiad cyffredinol 2024 Senedd y DU yn awgrymu bod yr angen am ID pleidleiswyr wedi effeithio ar rai pobl yn fwy nag eraill. Roedd pobl o raddau cymdeithasol is oedd heb bleidleisio yn fwy tebygol o ddweud bod hyn oherwydd nad oedd ganddynt unrhyw ID safonol na'r rhai mewn graddau cymdeithasol uwch.

Ar ben yr ansicrwydd ynghylch cofrestru i bleidleisio, gwyddom hefyd fod pobl ag anawsterau iechyd meddwl yn wynebu amrywiaeth o ffactorau eraill sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan:

- Dryswch ynghylch y rheolau yn ymwneud â'r ID ffotograffig pleidleiswyr
- Diffyg ffydd neu ansicrwydd ynghylch yr opsiynau pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy
- Profiadau negyddol blaenorol o deimlo diffyg dealltwriaeth neu gefnogaeth gan y staff mewn gorsafoedd pleidleisio.